

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth

Nos Iau 21 Mawrth 2019 am 18.00

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Jacob Milner

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Iwan Hywel a Gabrielle Wyn.

2. Meirion Williams – Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a Steffan Jones – Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol [Dros Dro]

Derbynnwyd ymddiheuriadau gan Meirion Williams cyn y cyfarfod, a croesawyd Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, yn ei le. Roedd pynciau trafodaeth wedi gael ei danfon o flaen llaw i'r swyddogion.

Problemau gyda baw ci – Nododd Cyng. Richard Fraser-Williams fod hyn dal yn broblem mawr, yn enwedig ar Lon y Grug. Nododd Steffan fod Peter Simpson, Cyngor Gwynedd wedi bod i ymweld a'r safle. Steffan Jones i diweddarau'r Cyngor ar y mater.

Biniau/biniau ailgylchu – Pryderon ynglyn a biniau ar diwrnod casgliad ar hyd Ffordd Tanrhiw, mater Iechyd a Diogelwch. Dim digon o le ar y palmant i goetis neu gadair olwyn. Steffan i edrych i mewn i'r mater a diweddarau'r Cyngor.

Tyllau ar hyd y ffordd allt Sling – Nododd Cyng. Mary Hayes fod amryw o dyllau ar hyd y ffordd. Eglurodd Steffan Jones fod cyllid o fewn yr adran yn frin. Steffan i danfon rhaglen waith yr adran Briffyrdd i'r Cyngor.

Peiriant Ysgubo yn mhentref Llandygai – Cyng. Mair Leverett wedi sylwi fod yr peiriant sgubo ddim yn sgubo'r ffordd bellach, Steffan Jones i rhoi diweddariad ar y mater.

Dwr ar y ffordd ger Canolfan Tregarth – Steffan i rhoi diweddariad.

Gor-yrru yn y plwyf – Iwan ap Trefor am wneud gwaith ymchwil ar y ffordd rhwng Tanybwllch a Ysgol Bodfeurig.

Trafnidiaeth – ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn gan Meiron Williams.

Diolchwyd i Steffan Jones ac Iwan ap Trefor am fynychu'r cyfarfod.

3. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

- 4.1** Llwybr beics pentref Llandygai – Cyngor Gwynedd wedi ymateb. Y Clerc wedi gofyn iddynt ail-linellu'r llwybr. Y Clerc i ofyn am diweddariad.
- 4.2** Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y twnel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi nodi fod y Cyngor wedi ei farcio gyda tâp diogelwch, ond gwaith cynnal heb gychwyn.
- 4.3** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Yn dilyn danfon llythyrau i cartrefi cyfagos, wedi derbyn sel bendith eu bod yn hapus i'r lloches gael ei leoli yno. Cyng. Richard Fraser-Williams i wenud ymholiadau prisiau. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd os oes angen caniatad ar gyfer gosod sylfaen concrit.
- 4.4** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:
Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh
Llwybr Main – golau ddim yn gweithio
Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd 'Ildiwch' yn fflachio.
Y Clerc i gael diweddariad.
- 4.7** Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – wedi'i drafod uchod o dan eitem 2.
- 4.8** Diffibriliwr Tregarth – Angen newid dyddiad y hyfforddiant, Clerc i cysylltu hefo'r hyfforddwr, ac newid yr dyddiad ar 'facebook' ac yn Llais Ogwan. Cyng. Huw Jones wedi'i gael ei benodi fel yr unigolyn fydd yn goruchwyllo'r Defib, ac i gadw log misol. Y Clerc i archebu tri arwydd dwyieithog.
- 4.9** Cyng. Mair Leverett wedi gwneud ymholiadau ynglyn a gael caniatad i rhoi un ar Neuadd Talgai, ond hen gael cadarnhad. Y Clerc i holi'r adran gynllunio.
- 4.10** Llwybr o Parc fynny at Lôn y Grug – angen sylw. Y Cyng. Dafydd Owen i gyfarfod gyda Cyng. Richard Fraser-Williams ar y safle.
- 4.11** Lôn Hermon a Lôn y Grug – baw ci – mater wedi'i drafod uchod o dan eitem 2.
- 4.12** Rali – 8 Rhagfyr 2018 - Y Clerc wedi danfon llythyr at Clwb Moduron Môn ac Arfon ac at Cyngor Gwynedd i gwyno am y Rali hwn. Y Cyngor wedi derbyn ymateb.
- 4.13** Wi-Fi Cymunedol Bwthyn Ogwen – drafft costau – disgwyl diweddariad.
- 4.14** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – disgwyl diweddariad.

5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2019'

Cyflwynwyd: Aelodaeth 2019-20 Un Llais Cymru – penderfynwyd adnewyddu'r aelodaeth.

Cyflwynwyd: Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – y Cyngor wedi penderfynu i rhodd rhodd o £200.

Cyflwynwyd: Elusen Scope – Cyng. Huw P Jones i holi perchennog Maes Parcio Pant yr Ardd.

Cyflwynwyd: Arwydd 'Bluebell Walk' – yr aelodau yn cefnogi sylwadau Menter Iaith Dyffryn Ogwen

Cyflwynwyd: Argyfwng Newid Hinsawdd – Partneriaeth Ogwen – y Cyngor yn cefnogi.

Cyflwynwyd: Cynnig i dynnu'r uned cyfleuster fasgwlaidd brys yn Ysbyty Gwynedd – Cyngor yn cefnogi.

Cyflwynwyd – Claddu Gwastraff Niwclcar yn Nghymru – Cyngor i basio cynnig eu bod am ymwrthod a chladdu a gwastraff niwclcar (DSD).

Cyflwynwyd – Yswiriant Cyngor Cymuned – y Clerc i adnewyddu

Cyflwynwyd – Cais am rhodd – Ysgol Bodfeurig – yr aelodau wedi penderfynu rhodd rhodd o £1,500 tuag at costau llawr newydd yn yr Ysgol.

Cyflwynwyd – Clwb Pel Droed Mynydd Llandegai – Cynllun i uwchraddio safle Clwb Peldroed Mynydd Llandygai – Cefnogi, ond hoffai'r Cyngor weld deunyddiau naturiol yn gael ei defnyddio i'r stand, ac hynny i gydfynd hefo'r ardal.

6. Gwaith y mis

6.1 Tan Lôn – bagiau bin a charped wedi gael ei gadael ger y cyffordd, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

6.2 Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen am edrych i mewn i'r mater.

6.3 Nodwyd Cyng. Angharad Williams ei bod wedi darganfod canisters nitrous oxide yn Twnel Tywyll, a tystiolaeth eraill eu bod yn gael ei camdefnyddio gan bobl ifanc. Yr canisters wedi gael ei rhoi i'r Heddlu ym Methesda, ac wedi cadarnhau fydd Swyddog penodol yn ymweld a'r Ysgol.

7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – Mae'r llawr yn yr ystafell gyfarfod angen ei gwblhau. Roedd yr boiler wedi torri, ond bellach wedi gael ei drwshio. Efallai fydd angen archebu un newydd yn y dyfodol agos. Trafferthion gyda casglu arian ar gyfer Clwb Cant, efallai bydd angen newid o gasglu arian parod i drosgwyddiad trwy'r banc.

Partneriaeth Ogwen – adroddiad ysgrifenedig wedi'i dderbyn, yn y rhestr Gohebiaeth.

Ysgol Llandygai – Yr Ysgol wedi gael archwiliad yn ystod yr wythnos yma - dim pryderon.

Ysgol Bodfeurig – problemau gyda niferoedd, efallai bydd rhaid newid i ddau dosbarth yn lle tri.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Chwefror.

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

9. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Rhys Jones	£191.10
Partneriaeth Ogwen	£35.00
Partneriaeth Ogwen	£1329.12
Partneriaeth Ogwen	£801.23

10. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda
Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0736/16/LL

Fferm Dinas Caravan Park, Tregarth
Estyniadau a newidiadau ynghyd ag
ail-wampio cyffredinol a gwaith
adnewyddu i floc toiledau presennol
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Holl ymghynghoriadau
drosodd

C19/0002/16/LL

28 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Dymchwel rhan o estyniad to fflat
presennol o chodi estyniad gromen
cefn ynghyd a newidiadau mewnol
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0422/16/LL

Y Wern, 2, Pentref Llandygai
Apel – Codi ty deulawr, llecynau parcio
ynghyd ac offer trin carthion
Penderfyniad: Disgwyl am canlyniad
apel

C19/0081/16/LL

44 Tal y Cae, Tregarth
Gosod ffenestri former yn y to
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0124/16/LL

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling
Estyniad unllawr
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0045/16/LL

Ty'r Ysgol, Tregarth
Codi ty deulawr a mynedfa (cynllun
diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd ar
apel o dan
cyfeirnod C18/0218/16/LL)
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0123/16/LL

Las Landrovers Ltd, Stad
Ddiwydiannol, Llandegai
Estyniad i'r uned presennol ynghyd ag
estyniad i'r suddfan ddwr
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0105/16/LL

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai,
Llandygai
Dymchwel yr adeilad presennol sy'n
cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a
chodi adeilad newydd yn ei le
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

12. Ceisiadau Cynllunio

C19/0171/16/LL

14, Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Addasu modurdy i fod yn anecs nain
Penderfyniad: Dim sylw.

C19/0244/16/LL

Tyddyn y Felin, Felin Hen Road,
Estyniad a newidiadau
Penderfyniad: Cefnogi

C19/0226/16/LL

Moelyci, Felin Hen Road
Codi stabl / cysgodfan mulod, rhodfa a
storfa sail (cais ol-weithredol)
Penderfyniad: Cefnogi

C19/0236/16/LL

Zip World, Chwarel y Penrhyn
Newid defnydd tir ar gyfer
gweithgareddau cartio gyfochrog a'r
ffordd bresennol ynghyd a chodi
clawdd gwahanu
Penderfyniad: Cefnogi

13. Unrhyw fater brys arall

Dim